

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 12fed Mawrth, 2019 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd) Lynford Thomas, Gerwyn Owen, Johnny Davies, Daniel Evans, Lyn Williams, Glyn Davies. Alan Henson, Hywel Ifans

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng Owen Llywelyn, Harri Williams

2. **PERSONOL** Dim i'w gofnodi.

**3. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 12fed Chwefror, 2019 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Hywel Ifans ac eiliwyd gan Y Cyng. Glyn Davies.

**4. DATGELU BUDDION PERSONOL**

Ni ddatgelwyd buddion personol

**5. MATERION YN CODI**

i. **8.i Llyfrau Llafar Cymru** Mae posterï wedi eu gosod yn yr hysbysfyrdau,

ii. **8.iii Porth y Gymuned.** Derbyniodd Enfys James y gwahoddiad i roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.

iii. **10.iv Pafin Gwelmor Dihewyd.** Derbyniwyd ymateb gan Adran y Priffyrdd yn dweud nad oedd unrhyw amod yn y caniatad cynllunio yn gorfodi'r perchennog i greu pafin o flaen y datblygiad. Nodwyd serch hynny bod y gwaith o wastadu'r darn o dir wedi dechrau.

iv. **10.v Arwydd.** Cadarnhawyd bod yr arwydd nawr yn ddiogel.

v. **10.viii Cinio'r Cadeirydd.** Cadarnhawyd y dyddiad newydd sef, 12fed Ebrill, 2019.

**6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith dros y mis diwethaf yn cynnwys mynychu dathliadau Gŵyl Ddewi, cyfarfod Pwyllgor Apêl Dihewyd ar gyfer Eisteddfod 2020 a chyfarfod adrodd yn ôl ar arolygaeth Ysgol Dihewyd gydag Estyn Yn dilyn cyfarfod bu'n mynychu, nododd y newyddion da mai Ceredigion yw rhif 3 ar restr siroedd awyr iach yng Nghymru. Pwysleisiodd hefyd y pwysigrwydd o ail-gylchu gan nodi os nad yw'r Cyngor Sir yn cyrraedd y targed a osodwyd arno mae'n cael ei gosbi.

**7. CYLLID**

**Cytunwyd ar y taliadau canlynol:**

- i. Tony Bretland, Gofalwr Cysgodfannau Mynach, Troedyrhiw, Ystrad a Bro Henllys, £578.66 (yn cynnwys codiad o 2% fel a gytunwyd yn yr AGM 2018)
- ii. Les Verdin, Gofalwr Cysgodfan Dihewyd £96.44 (yn cynnwys codiad o 2% fel a gytunwyd yn yr AGM 2018)

- iii. Neuadd Goffa Felinfach £40 : 4 Cyfarfod x £10.00 Ebrill 2018, Gorffennaf 2018, Tachwedd 2018 a Mawrth 2019.
- iv. Neuadd Dihewyd £30 : (3 Chyfarfod x £10.00 Mehefin 2018, Hydref 2018 a Chwefror 2019).
- v. Un Llais Cymru Aelodaeth £233.00 (Trafodwyd yng nghyfarfod mis Chwefror 2019)
- vi. Swyddfa Archwylwyr Cymru £247.25, Ffi archwiliad allanol
- vii. Tâl y Clerc, Ionawr – Mawrth 2019 £575.00
- viii. Costau'r Clerc am y flwyddyn 2018/2019 166.83

## **8. Ymgynghoriad Ad-drefnu Ysgolion**

Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr penderfynwyd cyflwyno'r sylwadau isod i'w hystyried yn rhan o'r ymgynghoriad:

*Penderfynwyd nad oedd hi'n bosib i'r cyngor gymeradwyo yr un o'r opsiynau a gyflwynwyd nes bod union safle'r ysgol wedi ei ddewis.*

*Barna'r aelodau ei bod hi'n amhosib gwneud sylwadau ar y ffactorau a nodwyd, megis effaith ar y gymuned, trefniadau cludiant, nes bod penderfyniad ar y safle wedi ei gyhoeddi a bod y trefniadau arfaethedig ar gyfer y ffactorau perthnasol wedi eu cyflwyno.*

*Mae'r cyngor o'r farn fod pob un o'r opsiynau a ddynodir yn y ddogfen ymgynghori yn cyflwyno heriau penodol. Wrth ystyried cynlluniau ar gyfer diogelwch traffig, er enghraifft, y mae'r heriau'n gwahaniaethu'n fawr o safle i safle.*

*Felly, wrth ystyried dyfodol addysg ac economi'r ardal ac er tegwch i rieni, plant a'r bobol leol, nid yw'r cyngor yn barod i gymeradwyo unrhyw newid i'r status quo nes i leoliad yr ysgol newydd gael ei wneud yn hysbys.*

## **9. Hyfforddiant Côt Ymddygiad**

Cyflwynwyd sesiwn gan y Clerc i atogffa'r Cynghorwyr o gynnwys, a phwysigrwydd cydymffurfio â'r Côt.

## **10. GOHEBIAETH**

### **i. Derbyniwyd ceisiadau am gefnogaeth ariannol gan:**

- a) Cruse Ceredigion
- b) Urdd Gobaith Cymru Ceredigion
- c) Adran Urdd Cribyn

ii. Derbyniwyd llythyr gan Mrs. Glenys Owen, Ysgrifennydd Capel Bethlehem Dihewyd yn gofyn am gefnogaeth ar gyfer cais am grant i wneud gwaith anghenrheidiol i'r Capel. Gan nad oedd y llythyr wedi cyrraedd cyn dosbarthu'r Agenda, datganwyd diddordeb ar y pwynt yma gan y Cyng. Gerwyn Owen a'r Cyng. Hywel Ifans. **Cytunwyd i gefnogi'r cais.**

## 11. CYNLLUNIO

Dim materion i'w trafod.

## 12. UNRHYW FATER ARALL

i. Mae yna gynlluniau ar y gweill i osod 'rising main' trwy bentre' Felinfach. Anogodd y Cyng. Lynford Thomas i'r aelodau i fynychu unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori/cyflwyno gwybodaeth sy'n cael eu cynnal er mwyn dangos cefnogaeth i'r cynllun hir-ddisgwyliedig hwn.

ii. Wal Cribyn. Tynnodd y Cyng. Alan Henson sylw at y ffaith fod y wal lle bu'r cofgolofn yng Nghribyn yn gwaethygu. **Penderfynwyd** cysylltu â'r Cyngor unwaith eto yn gofyn am roi sylw ar frys i'r mater hwn.

iii. Ffosydd. Yn dilyn bore o gasglu sbwriel yng Nghribyn, nodwyd bod nifer o ffosydd ar yr hewl i Dihewyd (o droad yr Ysgol) wedi eu blocio yn ogystal â nifer ar yr hewl yn arwain at Droedyrhiw. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd unwaith eto i dynnu sylw at y mater.

iv. Carffosiaeth. Tynnwyd sylw at broblem gyda gorlifo carffosiaeth trwy bentre' Dihewyd (Gwelmor a Felinwen hyd at y groesfordd). Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i nodi'r pryder y gallai'r carffosiaeth redeg i'r nentydd ac i ofyn am gadarnhad am bwy sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau bod y system garffosiaeth yn ddigonol er osgoi digwyddiadau gorlifo.

v. Yn dilyn sgwrs am y diffyg cyfathrebu rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned yn dilyn cyflwyno materion drwy'r system CLIC, cynigiodd y Cyng. Hywel Ifans y dylid cysylltu ag Adran Gofal Cwsmeriaid y Sir i ofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa. **Penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn anfon llythyr.

vi. Nodwyd llwyddiant Cffl Felinfach yng nghystadleuaeth yr hanner-awr adloniant gan y Cyng. Glyn Davies, trwy dod yn fuddugol dros Gymru yn ogystal â llwyddiant Alaw Mair Jones o'r clwb a dderbyniodd wobwr Aelod Iau y Flwyddyn dros Gymru. Mae'r Cynghorwyr i gyd yn falch iawn o lwyddiant y Clwb.

## 13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 9fed Ebrill, 2019 yn Ysgol Cribyn